# Y Pwyllgor Busnes

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Swyddfa'r Llywydd, 4ydd llawr – Tŷ Hywel** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 13 Ionawr 2015** |
| Amser: | **08.30 – 08.40** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion: Preifat

| | |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | **Y Fonesig Rosemary Butler (Cadeirydd)**<br>**Andrew RT Davies**<br>**Jane Hutt**<br>**Elin Jones**<br>**Aled Roberts** |
| Staff y Pwyllgor: | **Aled Elwyn Jones (Clerc)** |
| Eraill yn bresennol: | **David Melding AC, Y Dirprwy Lywydd**<br>**Christopher Warner, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth**<br>**Siân Wilkins, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau**<br>**Craig Stephenson, Cyfarwyddwr Dros Dro Gwasanaethau'r Comisiwn**<br>**Peter Greening, Llywodraeth Cymru** |

## 1 Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Paul Davies. Roedd Andrew RT Davies yn dirprwyo ar ei ran.

## 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

Nododd y Pwyllgor y cofnodion ar gyfer eu cyhoeddi.

## 3 Trefn Busnes

3.1 Busnes yr wythnos hon

Rhoddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth y wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am y newidiadau ym Musnes y Llywodraeth ddydd Mawrth.

Cynhelir y Cyfnod Pleidleisio ddydd Mawrth ar ôl yr eitem olaf o fusnes, ar wahân i unrhyw bleidlais sy'n angenrheidiol ar y cynnig i atal y Rheolau Sefydlog. Ddydd Mercher, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnal y Cyfnod Pleidleisio cyn y Ddadl Fer.

3.2 Amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Gofynnodd Andrew R T Davies i Weinidog Busnes y Llywodraeth a oedd y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd yn bwriadu cyflwyno eitem yn y Cyfarfod Llawn ar Gynllun Taliad Sylfaenol y llinell Rhostir 400m. Rhoddodd y Gweinidog wybod i'r Pwyllgor bod y Dirprwy Weinidog wedi cyflwyno Datganiad Ysgrifenedig ar y mater ar 12 Ionawr 2015 ac y cynhelir ymarfer i ddatblygu opsiynau newydd mewn cydweithrediad â chyrff sy'n rhanddeiliaid yn y diwydiant. Bydd ymgynghoriad cyhoeddus yn dilyn, cyn i Lywodraeth Cymru ystyried sut i symud ymlaen. Nid oes unrhyw gynlluniau i drefnu eitem ar hyn yn y Cyfarfod Llawn ar hyn o bryd.

Nododd y Pwyllgor Busnes amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf.

3.3 Amserlen Busnes y Cynulliad ar gyfer y tair wythnos nesaf

Penderfynodd y Pwyllgor Busnes ar drefn y busnes a chytunodd i drefnu'r eitemau canlynol o fusnes:

**Dydd Mercher 4 Chwefror 2015**

- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)

## 4 Deddfwriaeth

4.1 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol Diwygiedig (Memorandwm Rhif 2) ar y Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth

Bu’r Pwyllgor Busnes yn ystyried papur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Atodol diwygiedig (Memorandwm Rhif 2) mewn perthynas â’r Bil Busnesau Bach, Menter a Chyflogaeth.

Rhoddodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth wybod i’r Pwyllgor bod y Bil yn dynesu at ddiwedd ei daith drwy’r Senedd a bod gwaith craffu eisoes wedi’i wneud ar y brif ddarpariaeth mewn perthynas â thenantiaethau busnesau yn y cartref. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i nodi’r Memorandwm diwygiedig, ac na ddylid ei gyfeirio at bwyllgor yn y Cynulliad i graffu arno. Nododd y Rheolwyr Busnes bod y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â’r darpariaethau hyn wedi’i drefnu ar gyfer Cyfarfod Llawn y prynhawn hwnnw.

4.2 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Arloesi Meddygol

Bu’r Pwyllgor Busnes yn trafod papur gan y Llywodraeth ynghylch Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (Memorandwm) mewn perthynas â’r Bil Arloesi Meddygol.

Cytunodd y Rholwyr Busnes i gyfeirio’r Memorandwm at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol i graffu arno.  Roedd y Pwyllgor hwnnw eisoes wedi ymgynghori ar y darpariaethau. Cytunodd y Pwyllgor Busnes hefyd y dylai’r Pwyllgor gyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn dydd Iau 29 Ionawr 2015 er mwyn caniatáu i’r Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gael ei drafod yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mawrth 3 Chwefror 2015.

**Unrhyw Fater Arall**

Gofynnodd y Gweinidog i’r Rheolwyr Busnes a fyddent yn fodlon i Gwestiynau Llafar y Cynulliad i’r Cwnsler Cyffredinol, a drefnwyd ar gyfer 4 Mawrth, gael eu symud wythnos i 11 Mawrth, oherwydd trefniadau sy’n gwrthdaro. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i’r cais hwn.

Dywedodd Gweinidog Busnes y Llywodraeth wrth y Rheolwyr Busnes y gall fod angen i’r Llywodraeth osod Memoranda pan na fydd dim amser neu ychydig iawn o amser i graffu arnynt yn ystod yr wythnosau nesaf, oherwydd y gwelliannau hwyr sy’n cael eu

gosod o ran Biliau'r DU. Nododd y Gweinidog y bydd yn rhoi cymaint o wybodaeth i'r Pwyllgor â phosibl.

Gofynnodd Elin Jones am y wybodaeth ddiweddaraf am Fil Safleoedd Carafannau Gwyliau (Cymru) Darren Millar. Rhoddodd Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth wybod i'r Pwyllgor fod Darren Millar yn parhau i ystyried yr argymhellion a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol a'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol. Nid oes unrhyw derfyn amser ffurfiol o dan y Rheolau Sefydlog ar gyfer dadl Cyfnod 1, ond yn ymarferol, bydd angen gosod cynnig i gytuno ar egwyddorion cyffredinol y Bil erbyn dechrau hydref 2015 er mwyn i'r Bil gael digon o amser i gwblhau'r broses ddeddfwriaethol cyn diwedd y pedwerydd Cynulliad.